| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Dyddiad** | 19 Ebrill 2018 |
| **Teitl** | Deilliannau Cyfnod Sylfaen Gwynedd |
| **Awdur** | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet** | Cynghorydd Gareth Thomas |
| **Pwrpas** | Pwrpas yr adroddiad hwn yw i gyflwyno canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen. |

**Cyd –destun**

Mae canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim wedi bod yn gyson isel yng Ngwynedd tros y pum mlynedd diwethaf mewn cymhariaeth a gweddill Cymru. Yn unol a fframwaith gwella ysgolion Cymru disgwylir i'r disgyblion hyn gyflawni yn dda o ran y dangosydd cyfnod Sylfaen mewn cymhariaeth â Chymru.

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 13.7% | 12.9% | 13.3% | 13.0% | 12.4% |
| Cymru | 19.5% | 19.1% | 18.8% | 18.4% | 17.8% |
| Safle Gwynedd (1=%PYD isaf) | 5 | 4 | 4 | 4 | 4 |

Mae'r tabl isod yn dangos bod Gwynedd yn perfformio yn sylweddol is na'r disgwyl yn Genedlaethol, ac er bod Cymru a'r rhanbarth wedi gwneud cynnydd y llynedd, bu gostyngiad yng nghanlyniadau Gwynedd, ac er mai bychan iawn yw'r gostyngiad, 0.2%, cafodd effaith negyddol ar safle'r Sir yn genedlaethol.

| | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|
| Gwynedd | 86.8% | 86.8% | 86.6% |
| Cymru | 86.8% | 87.0% | 87.3% |
| Safle (disgwyliedig = 4/22 Awdurdod) | 11 | 14 | 15 |

Yn ystod 2016-2017, roddwyd mewnbwn sylweddol (fel mewn siroedd eraill y Rhanbarth) i geisio gwella perfformiad y Cyfnod Sylfaen. Cyflwynywd hyfforddiant ar gyfer sicrhau bo'r ysgolion yn paratoi gweithgareddau heriol yn ardaloedd y Cyfnod Sylfaen ac fe roddwyd arweiniad i bob ysgol ar Asesu yn y Cyfnod Sylfaen.

Amlygir isod berffomriad Gwynedd o gymharu a gweddill awdurododau'r Gogledd. Dim ond perfformiad y Gymraeg a Datblygiad Personol sydd yn unol a'r disgwyliad o ystyried niferoedd y dysgwyr sydd a hawl i brydau ysgol am ddim.

| | Safle |
|---|---|
| Dangosydd Cyfnod Sylfaen | 3 |
| Iaith –Cymraeg D5+ | 5 |
| *Iaith – Cymraeg D6+* | *1* |
| Datblygiad Mathemategol | 3 |
| Datblygiad Mathemategol D6+ | 3 |
| Datblygiad Personol D5+ | 2 |
| *Datblygiad personol D6+* | *1* |

Mae nifer o ffactorau cymleth yn dylanwadu ar berfformiad disgyblion ac nid oes un ateb syml.

Yn dilyn trafodaethau gyda thrawstoriad o benaethiaid Gwynedd, ac adborth holiadur a anfonwyd allan (derbyniwyd 10 ymateb), dyma'r prif ffactorau a ddaeth i'r amlwg o ran anawsterau a wynebir gan ysgolion a'r strategaethau a roddir ar waith ganddynt i geisio eu goroesi.

**Addysgu trwy'r Gymraeg**

| Iaith y disgyblion | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|
| % Cymraeg yn y cartref | 64.6 | 66.4 | 64.0 |

Mae canran y disgyblion gyda Chymraeg ar yr aelwyd wedi disgyn dros y 3 blynedd ddiwethaf.

| Perfformiad DCS Gwynedd | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % Disgyblion a gyflawnodd y DCS (Cohort llawn) | 83.0 | 82.8 | 85.2 | 86.8 | 86.8 | 86.6 |
| % Disgyblion a gyflawnodd Cohort Cymraeg | 87.6 | 86.9 | 89.4 | 88.4 | 88.7 | 88.3 |
| % Disgyblion a gyflawnodd Cohort Saesneg | 47.4 | 63.6 | 64.3 | 77.8 | 52.2 | 57.9 |
| % Disgyblion a gyflawnodd y DCS (Heb gynnwys y Cohort Saesneg) | 83.6 | 83.2 | 85.9 | 87.0 | 87.4 | 87.1 |

**Caffael iaith**

Nid oes ateb pendant i faint o amser y dylai gymryd i ddysgu iaith newydd. Mae dysgu iaith newydd yn ddibynnol ar lawer iawn o elfennau megis;

- oedran
- gallu neu ddawn i ddysgu iaith newydd
- cymhelliant i ddysgu
- pa mor debyg yw'r iaith i'r iaith gyntaf
- os yw'r iaith yn iaith leiafrifol
- faint o oriau mewn dydd
- wythnos a blynyddoedd y dônt i gyswllt a'r iaith
- cyd- destun y gwersi
- ansawdd yr athrawon
- adnoddau
- cyfleoedd i ymarfer
- agwedd y rhieni.

Argymhellir yn aml, bod angen o leiaf rhwng 600 a 10,000 o oriau, gyda 1000 yn cael ei fynegi'n optimistaidd fel posibilrwydd.

**Anhawsterau lle asesir trwy'r Gymraeg:**
**Gwelir:**

- Bod Polisi Iaith Gwynedd, (yn wahanol i'r Siroedd eraill) yn gadarn bod rhaid asesu'r disgyblion trwy'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, er yr anawsterau a gyfyd yn sgil hynny. Medrir dadlau felly, bod y polisi yn gosod yr Ysgolion o dan anfantais a phwysau ychwanegol i gymharu â llawer o ysgolion mewn Siroedd eraill, lle ceid y dewis i asesu trwy'r Gymraeg neu'r Saesneg.
- Bod dros dreian o blant y Sir yn ddi- Gymraeg, a llawer ohonynt gyda'r Saesneg fel iaith ychwanegol iddynt.

- Bod y mwyafrif o'r disgyblion yn cael eu hasesu trwy'r Gymraeg er ei bod yn ail ac weithiau trydedd iaith iddynt. Mae'n dipyn o her felly i ysgolion Gwynedd sicrhau bod deilliannau/ safonau Cymraeg y Cyfnod Sylfaen, yn uchel.
- Weithiau, nad yw bob aelod o'r staff yn cadw at bolisi iaith yr ysgol ac yn troi i'r Saesneg i siarad â disgyblion di- Gymraeg. Hyn yn achosi diffyg cysondeb.
- Bod canlyniadau 'ysgolion 'bach', yn cael eu dylanwadu'n fawr iawn oherwydd nifer y cohort ac nad ydyw mewn gwirionedd yn adlewyrchiad teg o'r gwaith sy'n digwydd yno. E.e. 5 o ddisgyblion BL2 cyfwerth a 20% yr un. Petai un plentyn felly ddim yn cyrraedd y nod, fe fyddai'r DCS yn 80%.
- Bod plant Cymraeg ail iaith angen llawer mwy o amser i gyrraedd y deilliant disgwyliedig, a phlant sydd yn hwyrddyfodiad angen llawer mwy o gefnogaeth er mwyn cyrraedd y deilliannau disgwyliedig.
- Nad oes defnyddio cymorthyddion i dargedu grwpiau ymyrraeth fel yn y gorffennol oherwydd diffyg cyllid.
- Nad yw'r ysgolion yn derbyn cymorth allanol o ran y Gymraeg nes Cyfnod Allweddol 2. Caiff Hwyrddyfodiaid Bl3 ac ymlaen, fynychu'r Ganolfan Iaith yn ystod eu tymor cyntaf yn yr ysgol, os oes lle. Weithiau, os oes lle, caiff rhai ysgolion gynnig i'w disgyblion Bl2 fynychu, ond mae hyn yn ddibynnol ar leoliad yr ysgol o fewn y Sir. Pan fo hyn yn digwydd, gwelir dylanwad cadarnhaol.
- Caiff y disgyblion CA2 ôl ofal wedyn wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Credir y byddai'n fuddiol iawn petai'r gwasanaeth hollbwysig yma ar gael i dargedu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ogystal â'r adran Iau, neu o leiaf bod swyddog allanol yn dod i'w cefnogi yn ystod y cyfnod cyn Bl3. Byddai addasrwydd uned wrth gwrs yn dibynnu ar aeddfedrwydd y disgybl unigol i fynychu.
- Lle bo dosbarth 4 oed, bod y disgyblion hŷn yn chwarae rôl bwysig i ddatblygu sgiliau iaith y rhai ieuengach, fodd bynnag, lle mae dosbarth o un oed, gyda'r mwyafrif yn ddi- Gymraeg, mae'r her yn fawr iawn, a hynny'n ddyddiol. Byr iawn hefyd yw'r amser sydd ar gael er mwyn cyrraedd y safonau disgwyliedig.
- Lle mae gan ddisgyblion ADY dwys iawn, anodd iawn ydyw iddynt ddylanwadu'n gadarnhaol ar ganlyniadau iaith diwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Diffyg cysondeb o ran asesu NEWBES- Ysgolion yn cynnwys asesiadau'r NEWBES yn eu data a hynny weithiau yn effeithio yn negyddol ar eu canlyniadau diwedd cyfnod ac ar ganlyniadau'r Awdurdod;
- Ysgolion yn asesu hwyrddyfodiaid (Cyrraedd yr ysgol ar neu ar ôl Ionawr 1af) yn y Gymraeg a hwythau efallai o gyfundrefn addysg Saesneg yn flaenorol. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae gan yr ysgolion yr hawl i'w hasesu trwy'r iaith orau i adlewyrchu ei gallu. Fodd bynnag, os gwneir y dewis i'w hasesu trwy'r Saesneg- ond iaith addysgu'r plentyn yn Gymraeg, a ydyw'r plentyn yn derbyn yr addysg angenrheidiol er mwyn iddo/ iddi gyrraedd y nod? Fodd bynnag, os addysgir yn y Saesneg, mae hyn wedyn yn tanseilio/amharu ar iaith gweddill y dosbarth.
- Gwelwyd esiamplau o deuluoedd tramor yn dychwelyd adref i weld eu teuluoedd am oddeutu dau fis ac yna yn dychwelyd i'r ysgol. Nid oes dim a all newid hyn, fodd bynnag, mae'r effaith yn dylanwadu yn negyddol ar y deilliannau yn gyffredinol, ond yn enwedig ar ddatblygiad y Gymraeg.
- Nad oes gan yr Ysgolion unrhyw ddylanwad dros ddefnydd y plant o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.
- Bod rhieni di Gymraeg ran amlaf yn gefnogol i ddatblygiad y Gymraeg, yn enwedig oherwydd eu dealltwriaeth o ddisgwyliadau polisi Iaith y Sir. Fodd bynnag, mae gan rhai ysgolion fwy o waith nag eraill i ennyn eu cydweithrediad. Mae hyn yn golygu llawer o ran buddsoddiad amser a staff.
- Yr angen i dargedu'r Gymraeg yn y sefydliadau cyn –ysgol yn ogystal- e.e Cynllun Croesi'r Bont. (Estyn yn cymeradwyo'r cynllun)
- Yr angen i hyrwyddo cyd-weithrediad pellach rhwng y sefydliadau cyn- ysgol a'r ysgolion.

**Strategaethau ar waith i'w goroesi.**

**Gwelir:**

- Bod ymroddiad staff i ddatblygu strategaethau llwyddiannus, wedi cael dylanwad cadarnhaol ar y deilliannau tros y blynyddoedd.
- Lle bo digon o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg ar gael/ digon o staff i gefnogi grwpiau ac unigolion ar gael, nad yw addysgu trwy'r Gymraeg yn broblem i'r ysgolion.
- Bod trochi'r disgyblion yn y Gymraeg yn llwyddiannus iawn.

- Ddefnydd effeithiol o gynlluniau megis Aled Afal/ Tric a Chlic/ Trugs, i ddatblygu sgiliau'r disgyblion ac i sicrhau ymsefydlu patrymau iaith yn effeithiol.
- Bod yr ysgolion yn asesu a thracio datblygiad y disgyblion yn rheolaidd, gydag er enghraifft, 'tudalennau asesu a gosod y targed nesaf' yn llyfrau'r disgyblion, fel bod y plentyn a'r staff yn ymwybodol o'r camau a'r disgwyliadau nesaf.
- Y gwneid defnydd o arbenigedd staff i rannu gwybodaeth ac arfer da nid yn unig yn eu hysgol eu hunain ond yn allanol hefyd. Hyn yn sicr yn ychwanegu at lwyddiant addysgu a dysgu.
- Bod y staff yn cyd-gynllunio yn fwriadus ar draws y dosbarthiadau/ ysgol, gan ddefnyddio strwythurau a chynlluniau sy'n ysgogi'r disgyblion ac sy'n sicrhau dilyniant o flwyddyn i flwyddyn.
- Bod ymroddiad yr ysgolion i lwyddiant y Siarter Iaith yn hybu ymrwymiad disgyblion a rhieni i ddatblygiad y Gymraeg. Hyderir y caiff ddylanwad pellach ar y deilliannau i'r dyfodol.
- Cydweithio clos rhwng yr ysgolion a'r rhieni er mwyn sicrhau datblygiad addysgol y plant ac i sicrhau cefnogaeth. E.e. nosweithiau i rieni ar e.e. Tric a chlic/ caffi darllen/ arwain y rhieni at ddosbarthiadau Cymraeg/ rhannu deunyddiau y Siarter iaith. Gwêl ysgolion y fantais o fedru syrthio yn ôl ar bolisi iaith y Sir.
- Gyda phwyslais Llywodraeth Cymru ar sicrhau bod 'Strategaeth y Gymraeg' pob Sir yn uchelgeisiol, y bydd gweddill ysgolion Cymru, i'r dyfodol, yn gorfod symud ymhellach ar hyd y continwwm ieithyddol. Pan ddigwydd hyn, bydd ysgolion Gwynedd mewn sefyllfa gref iawn, gan eu bod hwy yn barod ar frig y continwwm ieithyddol.

**Camau nesaf posibl:**

- Cysondeb o ran mynediad i Ganolfan Iaith ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
- Canolfan iaith ychwanegol er mwyn diwallu'r angen.
- Swyddog teithiol i gefnogi disgyblion Cyfnod Sylfaen newydd i'r Gymraeg/ Cymraeg a Saesneg cyn ac ar ôl mynychu canolfan.
- Cefnogaeth swyddog i dargedu absenoldebau.
- Cymorth ychwanegol bwriadus ac amserol ar gyfer y disgyblion ADY a'r disgyblion ffiniol.
- Cymorth Sirol ar gyfer rhieni'r NEWBES er mwyn iddynt gael cyfle i ddysgu'r ddwy iaith a thrwy hynny gefnogi gwaith y plant/ ysgol.
- Sicrhau cysondeb o ran gwneud defnydd priodol o gyfarwyddiadau'r Llywodraeth o ran asesu NEWBES a Hwyrddyfodiaid.

**Anawsterau lle asesir trwy'r Saesneg:**

**Gwelir:**

- Canran uchel o ddisgyblion gyda'r 'Saesneg fel iaith ychwanegol' a dim darpariaeth Sirol i dargedu eu hanghenion tra yn y Cyfnod Sylfaen. Gwasanaeth CA2 yn llwyddiant yn gyson.
- Diffyg amser i ymsefydlu'r iaith newydd cyn cyfnod yr asesu.
- Dim digon o Gymorthyddion ar gael i dargedu'r anghenion ieithyddol yn ddyddiol yn yr ysgol.
- Pan fo diffyg ieithyddol, mae'n anodd ar brydiau sicrhau nad oes anghenion addysgol ychwanegol yn ogystal. Angen cefnogaeth arbenigol amserol i sicrhau darpariaeth briodol effeithiol.

**Strategaethau ar waith i'w goroesi:**

**Gwelir:**

- Strategaethau mewnol ysgolion yn eu lle ac ar waith yn gyson, sy'n targedu anghenion cystal ag y bo modd.
- Cydweithio ag ysgolion tebyg, er mwyn gweld arfer da a chymedroli.
- Defnyddio Cymorthyddion i gefnogi anghenion ieithyddol y disgyblion ond hyn yn cael effaith ar bedagogaeth y Cyfnod Sylfaen gan nad oes digon o staff i dargedu a goruchwylio.
- Paratoi cefnogaeth fewnol ychwanegol pan ddychwel disgyblion ar ôl cyfnodau hir o absenoldebau,

- Paru rhieni gyda rhieni eraill o'r un iaith ond sydd â sgiliau Saesneg da.  Hyn yn datblygu sgiliau ieithyddol y rhieni a'u gallu i gydweithio a'r ysgolion a helpu eu plant.

**Camau nesaf posibl:**

- Cymorth ychwanegol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion SIY.
- Cydweithrediad amserol y gwasanaeth SIY.

**Dirywiad Cymdeithasol/ Gwaelodlin isel**

**Anawsterau:**

- Mwy a mwy o blant yn cyrraedd y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn gyda sgiliau sylfaenol a chymdeithasol gwan. Treulir llawer iawn o amser yn gweithio gyda'r plant i ddatblygu'r sgiliau disgwyliedig hyn a oedd yn gyffredin flynyddoedd yn ôl.
- Canran uwch o blant yn dod i'r ysgol heb y sgiliau toiledu a hunan ofal disgwyliedig, heb fedru defnyddio cyllell a fforc yn briodol, a prin yn medru cymdeithasu a sgwrsio gyda'i gilydd.
- Canran uwch o blant gydag anghenion o ran anhwylder ymlyniad, a hyn yn amharu ar rediad dosbarth, yr addysgu a'r dysgu.
- Canran uwch heb adnabyddiaeth o gwbl o lythrennau na rhifau, dim dirnad sut i ddefnyddio pensil, na gwybod sut i drin llyfr.
- Sgiliau llafar a gwrando gwan iawn gan fwy o blant, a llawer yn cael trafferth i eistedd, gwrando, canolbwyntio a dysgu.
- Llawer o'r plant yn gwybod sut i chwarae gyda ipad a gemau ffôn symudol ond heb syniad sut i ganu ac adrodd hwiangerddi a chaneuon syml.
- Mwy o broblemau cymdeithasol/ gwrthdaro/ ffraeo rhwng rhieni/ ffraeo yn y cartrefi, sydd yn cael effaith negyddol ar y plant a'u perthynas gydag eraill yn yr ysgol.
- Mwy o fewnbwn gan y gwasanaeth cymdeithasol nag y bu oherwydd yr anawsterau cymdeithasol.
- Feddylfryd negyddol tuag at addysg gan rai rhieni. Llawer mwy o broblemau cymdeithasol/ gwrthdaro/ ffraeo rhwng rhieni/ ffraeo yn y cartrefi, sydd yn cael effaith negyddol ar y plant a'u perthynas gydag eraill yn yr ysgol.
- Mwy o rieni gyda sgiliau rhiantu gwan.

**Strategaethau ar waith i'w goroesi.**

**Gwelir:**

- Llawer o amser yn cael ei fuddsoddi i wella'r anghenion sylfaenol disgwyliedig, a hynny ar brydiau ar draul anghenion gweddill y dosbarth ac anghenion cwricwlaidd.
- Staff yn treulio amser yn darparu strwythurau/ gweithgareddau maethu er mwyn dad -wneud y dylanwadau negyddol sydd yn amharu ar ymddygiad unigolion.
- Strategaethau megis Grwpiau maethu, sesiynau Amser Cylch / Amser Caleb / Ysgol Dina / ffrindiau / sesiynau galw mewn – rhyddhau pryder / Talk About/ ardaloedd ymdawelu – modelu yn barhaus / staff yn sylwebu'n bositif / systemau gwobrwyo / cyswllt cartref – ysgol, ar waith.
- Treulio llawer o amser ac adnoddau dynol i ddatblygu perthynas gadarnhaol gyda rhieni, er mwyn sicrhau cydweithio effeithiol. Cynhelir gweithgareddau megis 'hwyl i'r teulu', gwersi Cymraeg, Llofnod y teulu, nosweithiau Numicon, ac yn aml raid defnyddio arian grantiau i gyllido hyn. Mae hyn wrth gwrs yn golygu bo llai yn cael ei fuddsoddi yn uniongyrchol ar y disgyblion.
- Ysgolion yn nodi fodd bynnag, ei bod yn braf gweld bod newid cadarnhaol yng nghydweithrediad rhieni pan fo amser, ymdrech ac adnoddau yn cael ei fuddsoddi ynddynt.

**Camau nesaf posibl:**

- Ymyrraeth gynharach yn digwydd trwy gydweithrediad rhwng y Gwasanaethau Iechyd ac Addysg er mwyn hyfforddi rhieni am  anghenion disgwyliedig ysgolion.
- Cefnogaeth i ysgolion i ddelio gyda rhieni problemus. Hyn yn aml yn rhoi llawer o bwysau ar staff ac yn drwm ar eu hamser.
- Cymorth ar gyfer ysgolion sydd â nifer o rieni 'Saesneg fel iaith ychwanegol', er mwyn eu galluogi i fod yn rhan weithredol o addysg eu plentyn.
- Parhad i ganolfan ABC ar gyfer y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn.

**Anghenion Addysgol ychwanegol**

| Perfformiad DCS Gwynedd | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % Disgyblion a gyflawnodd y DCS (Cohort llawn) | 83.0 | 82.8 | 85.2 | 86.8 | 86.8 | 86.6 |
| % Disgyblion a gyflawnodd y DCS (Heb gynnwys disgyblion D/GY+/GY) | 94.2 | 94.2 | 95.0 | 97.3 | 96.5 | 96.3 |
| % Disgyblion a gyflawnodd y DCS (D/GY+/GY yn unig) | 51.3 | 51.5 | 53.0 | 57.9 | 57.3 | 57.5 |
| % Disgyblion a gyflawnodd y DCS (GY yn unig) | 64.2 | 61.7 | 68.1 | 71.4 | 68.3 | 71.9 |

**Anawsterau**

**Gwelir:**

- Mwy a mwy o ddisgyblion gydag ADY yn yr ysgolion, ac er bod yr ysgolion yn hollol gynhwysol, mae'r anghenion hyn yn effeithio a'r canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.
- Er y darperir cymorth ychwanegol i gefnogi'r disgyblion ADY, (gan yr Adran Addysg, Adran Iechyd, neu'r ysgol) ac er bo'r plant yn gwneud cynnydd da/ disgwyliedig yn erbyn eu gwaelodlin a'u targedau personol, nid yw'r cynnydd yma ran amlaf yn ddigonol i ddylanwadu ar y deilliannau disgwyliedig.
- Oherwydd anghenion cymhleth y broses cyfeirio, nid oes ymyrraeth digon cynnar gan Adran ADY yr AALl ac yn aml, aiff y blynyddoedd cynnar, hollbwysig heibio heb i'r disgyblion dderbyn y gynhaliaeth angenrheidiol ychwanegol.  Rhaid i'r ysgolion ddelio gystal â phosibl gyda'r anawsterau a'r canlyniadau a gyfyd, hyd nes bod cefnogaeth ychwanegol ar gael. Gall hyn roi llawer o straen ar y staff a'r disgyblion eraill.
- Er bod y broses wedi cyflymu ers i Strategaeth ADY Gwynedd a Mon gael ei fabwysiadau, oherwydd nad oes unedau ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn Derbyn , gall nifer o ddisgyblion fod am gyfnod o amser yn y dosbarth prif lif heb y lefel gynhaliaeth briodol ar gyfer diwallu eu anghenion.
- Pryder gan fod y Staff a'r Rhieni yn teimlo'n rhwystredig oherwydd bod y bwlch yn cynyddu rhwng perfformiad y disgyblion a'u cyfoedion wrth ddisgwyl am gefnogaeth ychwanegol.
- Disgyblion yn yr ysgolion gyda sbectrwm eang o anghenion dwys. Ar brydiau, hyd yn oed gyda chefnogaeth cymhorthydd 1 i 1, mae'r anghenion hyn yn cael effaith negyddol ar rediad effeithiol y dosbarth, ar yr addysgu, y dysgu ac felly yn effeithio gweddill y disgyblion ac ar y deilliannau.
- Pryder bod llawer o gymorthyddion 1 i 1 heb dderbyn hyfforddiant arbenigol felly nid yw'r sgiliau parod ganddynt i gefnogi'r disgyblion o'r cychwyn cyntaf.
- Pryder gan  ysgolion nad oes targedu digon effeithiol  ar gyfer y plant ffiniol ac  y byddai  buddsoddi mwy o gymorth rheolaidd  i'r disgyblion hyn,  yn dylanwadu'r gadarnhaol  ar ganlyniadau'r  Cyfnod Sylfaen.
- Er bod ysgolion yn targedu yn fwriadus, oherwydd bod y staff cynhaliol yn aml yn cefnogi'r disgyblion ADY dwys, nid oes modd iddynt dargedu'r disgyblion ffiniol mor aml ac y byddent yn dymuno.
- Bod cwtogi cyllid ysgolion wedi arwain at leihad yn nifer cymorthyddion y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol. Golyga hyn nad oes modd i'r ysgolion barhau gyda'r lefel o gynhaliaeth ychwanegol ar gyfer targedu grwpiau penodol.  Darpariaeth yn amrywio o ysgol i ysgol oherwydd diffyg arian a staff.

- Angen gan rai o'r ysgolion am ganolfan arbenigol i gefnogi disgyblion Cyfnod Sylfaen sydd gydag anghenion penodol dwysach e.e. anawsterau ymddygiad/ nam ar y lleferydd, lle medrent dderbyn cefnogaeth arbenigol tymor byr, ac yna cefnogaeth ôl ofal wrth ddychwelyd i'r ysgol. Byddai hyn nid yn unig yn sicrhau darpariaeth arbenigol ar eu cyfer, ond hefyd yn galluogi'r ysgolion i dargedu'r disgyblion ffiniol ymhellach.
- Pryder bod canolfan 'ABC' ar gyfer disgyblion cyn- ysgol, fodd bynnag nid oes dilyniant i'r gwasanaeth yma ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen.
- Er y derbynnir cymorth o ran cynllunio fwriadus, teimlir bod angen fwy o gefnogaeth ymarferol ar lawr y dosbarth, gan swyddog arbenigol. Byddai hyn yn creu mwy o effaith. Gweld colled ar ôl diddymu rôl yr athrawon ymgynghorol a oedd yn gweithio yn uniongyrchol gyda'r disgyblion.
- Bod anghenion plant 'mynd a dod' yn dylanwadu yn negyddol ar anghenion y dosbarth a bod angen cymorth ychwanegol i dargedu'r anghenion hyn. Llawer o amser ac adnoddau yn cael eu buddsoddi, ond dim cysondeb o ran hyd eu cyfnod yn yr ysgol.
- Pryder nad oes cymorth ar gael ar gyfer disgyblion sydd a'r 'Saesneg fel iaith ychwanegol'. Ar brydiau fe'i gwelir yn anodd darganfod os mai anghenion ychwanegol sy'n peri anhawster yntau diffyg dealltwriaeth ieithyddol.

**Strategaethau ar waith i'w goroesi.**
**Gwelir:**

- Bod y strategaethau a rhoi'r ar waith, - targedu manwl/ cymorth rheolaidd, yn sicrhau bod tros 50% o'r disgyblion ADY yn cyrraedd y deilliant disgwyliedig a hwythau hefyd yn aml yn perfformio yn uwch na'u targed.
- Y defnyddir nifer o raglenni effeithiol ar draws yr ysgolion megis: Black Sheep, gweithgareddau o'r llyfr 'Adeiladwr Iaith – Elklan', Cychwyn Eto, Tric a Chlic, Rhaglen Numicon, SAFMEDS, Headsprout, Darllen a deal amrywiol, Talk About, Might Moe, Anger management, Ffrindiau Ffeind, Mynediad I'r grwpiau maethu, gweithgareddau yn deillio o'r cynllun Boxall.
- Bod ysgolion yn targedu anghenion y disgyblion o'r dosbarth Meithrin ymlaen, (nid yw hyn yn gyson ymhob ysgol) yn cynllunio o flaen llaw i sicrhau cefnogaeth o fewn yr ysgol, yn ymchwilio er mwyn cael syniadau newydd, ac yn fodlon addasu fel bo'r angen.
- Bod gweithdrefnau cadarn er mwyn adnabod anghenion unigolion yn gynnar a darparu arlwy o ymyraethau a strategaethau cadarn i'w cefnogi.
- Bod systemau electroneg i olrhain cynnydd bob disgybl a hynny'n caniatau'r staff i adnabod ac ymateb i unrhyw danberfformiad.
- Lle mae cyllid wrth gefn/ grantiau ar gael, mae'r ysgolion yn ei ddefnyddio i gyflogi staff ychwanegol i dargedu grwpiau penodol o ddisgyblion yn ddyddiol. Fodd bynnag, mae gofid mawr gan fod yr arian yma yn prinhau. Lle nad oes arian ar gael, mae'r ysgolion yn ddibynnol yn aml ar wirfoddolwyr, ac nid yw hyn bob amser yn ateb yr angen.
- O safbwynt y disgyblion 'mwy abl a thalentog', bod strategaethau cadarn a bwriadus yn eu lle ar eu cyfer, ac oherwydd natur y disgyblion medrent weithio yn fwy annibynnol, ymateb i'r heriau, a chyrraedd y deilliannau uwch.
- Bod ysgolion yn cynllunio profiadau a chyfleoedd estynedig ac yn fodlon addasu dulliau addysgu/ strwythurau er mwyn cyrraedd y deilliannau uwch.
- Bod GwE yn herio ysgolion yn o ran eu canlyniadau. Mae'n rhaid i'r ysgolion sicrhau bod tystiolaeth gadarn ganddynt sy'n dangos yn glir pam nad yw'n bosibl i'r plentyn gyrraedd y deilliannau disgwyliedig. Yn yr un modd, mae Penaethiaid yn herio eu staff er mwyn sicrhau bod eu hasesu yn gadarn, a'u strwythurau cefnogi yn ateb yr angen.
- Y buddsoddir llawer o amser ac adnoddau dynol i gefnogi'r disgyblion 'mynd a dod', ond yn aml, nid yw'r gynhaliaeth a all yr ysgolion ei ddarparu yn ddigonol i sicrhau bod y disgyblion yn cyrraedd y deilliannau disgwyliedig o fewn yr amser sydd ar gael. Mae hyn wedyn yn dylanwadu ar DCS yr ysgol a'r Sir. Byddai cymorth Sirol i dargedu'r unigolion yn fuddiol iawn.

**Camau nesaf posibl**

- Lleihau strwythur ADY Sirol er mwyn sicrhau cymorth arbenigol yn fwy amserol.
- ‘Banc’ o gymorthyddion arbenigol Sirol i gefnogi disgyblion ADY yn yr ysgolion a’r rheini wedi eu hyfforddi yn briodol.
- Y Sir yn darparu swyddog i dargedu y disgyblion ‘ffiniol’yn gyson, a thrwy hyn ddylanwadu’n gadarnhaol ar y deilliannau.
- Sefydlu canolfanau arbenigol ar gyfer anhwylderau penodol a gwasanaeth ôl ofal o fewn ysgolion i ddilyn.
- Swyddog Sirol i gefnogi yn amserol/ rheolaidd ac am gyfnod penodol, y disgyblion ‘mynd a dod’.

**Staffio**

**Anawsterau:**

**Gwelir:**

- Mai’r adnodd mwyaf gwerthfawr gan yr ysgolion i godi safonau yn y Cyfnod Sylfaen yw’r staff da/ rhagorol a sefydlog, sy’n cydweithio yn effeithiol i gynllunio, paratoi ac i sicrhau dilyniant a chysondeb. Hyn yn cael effaith cadarnhaol ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch. Fodd bynnag, gwelir bod diffyg arian yn arwain at lai o gyfleoedd i staff fynd ar hyfforddiant, ymweld ag arferion da i ysgolion eraill, a bod hyn yn bwysig i sicrhau codi safonau. Disgwyliadau o ran athrawon a chymorthyddion yn uchel iawn.
- Bod Penaethiaid yn gorfod bod yn greadigol iawn wrth wynebu toriadau er mwyn ceisio cadw staff profiadol a thrwy hynny sicrhau safonau. Hyn yn aml yn rhoi pwysau ychwanegol ar unigolion.
- Diffyg staff ac arian i gefnogi prosiectau ychwanegol a fyddai’n dylanwadu’n gadarnhaol ar ddeilliannau.
- Ar gychwyn y Cyfnod Sylfaen, roedd y ratio staff: blant yn 1:8 yn y dosbarth Meithrin a Derbyn, ac 1: 15 ym Ml 1 a 2. Erbyn hyn, oherwydd diffyg cyllid, nid yw’r ratios cystal. Gwêl rhai ysgolion hyn yn anodd iawn yn enwedig pan geisiant barhau i gydymffurfio a phedagogaeth y Cyfnod Sylfaen.
- Yn sgil toriadau, bod rhaid i ysgol ddod o hyd i arian i gyllido’r arfer dda. Mae pryder nad oes modd parhau gyda safonau’r ddarpariaeth flaenorol. Mae hyn yn rhwystredig iawn iddynt.
- Mewn rhai dosbarthiadau Bl1 a Bl2, ceir 30 o ddisgyblion gydag 1 athro/ 1 Cymhorthydd. Gwelir ardaloedd wedi eu paratoi o fewn y dosbarth/ ysgol/ yn yr ardal tu allan, fodd bynnag, gan nad yw’r dosbarth yn agor i’r ardaloedd allanol yma, teimlir nad oes bosibl gwneud y defnydd gorau o’r holl ardaloedd, er mwyn cyfoethogi ac ymestyn profiadau. Nid oes digon o staff i oruchwylio.
- Diffyg arian tros y blynyddoedd wedi cael effaith amlwg ar leihad niferoedd Cymorthyddion yn yr ysgolion. Hyn yn golygu nad oes modd targedu anghenion/ grwpiau'r un mor effeithiol.
- Diffyg arbenigedd cymorthyddion 1 i 1 yn medru amharu ar rediad dosbarth pan nad oes ganddynt y sgiliau effeithiol ac angenrheidiol i weithio gyda’r disgyblion. Hyn yn arwain at ddiffyg chwarae teg i’r plentyn dan eu gofal ac i weddill y dosbarth.
- Pan fo staff newydd mewn ysgolion a/ neu strategaethau newydd yn cael eu rhoi ar waith, gall hyn gymryd amser i ymsefydlu yn gadarn, ac weithiau, rhaid bod yn amyneddgar cyn gweld ffrwyth newidiadau.
- Anhawster cael athrawon llanw pan fo absenoldeb staff. Mae Ysgolion yn tueddu i ddefnyddio athrawon llanw adnabyddus gan eu bod yn dda yn eu gwaith, yn brofiadol, yn adnabod y plant a threfn yr ysgol. Gwelir mwy o gysondeb a llai o amharu ar rediad y dosbarth. Fodd bynnag, nid yw’r athrawon hyn bob amser ar gael a rhaid dibynnu ar rai llai profiadol/ abl. Gwelir bod angen sicrhau llwybr datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon llanw yn yr un modd ag athrawon eraill er mwyn sicrhau cysondeb.
- Bod hyn yr un mor wir pan mae cymorthyddion yn absennol a’i bod yn anodd iawn llenwi'r bwlch yma. Mae hyn wrth gwrs yn cael effaith ar strategaethau targedu grwpiau o ddisgyblion a trefniadaeth dosbarth.
- Nad oes digon o gyrsiau Cyfnod Sylfaen Sirol wedi eu cynnal yn ddiweddar ar gyfer athrawon a chymorthyddion. Angen mwy o gyrsiau ysgogol.
- Pryder nad oes digon o hyfforddiant penodol i athrawon a chymorthyddion di Gymraeg y Sir. ( Er bod cynnydd wedi bod yn ddiweddar trwy gydweithrediad Rhanbarthol â GwE)
- Pryder nad yw’r negeseuon a rennir bob amser yn gyson.

**Strategaethau ar waith i'w goroesi.**

**Gwelir:**

- Cydweithio effeithiol rhwng staff / Pennaeth/ uwch dîm rheoli gan greu tîm effeithiol sy'n sicrhau bod pawb yn hyddysg yn yr anghenion a bod arbenigedd a gwybodaeth yn cael ei rannu.
- Cynllunio bwriadus gan athrawes i ymateb i angenion pob disgybl. Tracio cynnydd er mwyn herio digyblion ac i gefnogi disgyblion is eu gallu.
- Y gwneir y defnydd gorau posib o adnoddau dynol sydd ar gael i gefnogi grwpiau o ddisgyblion.
- Ddarparu profiadau creadigol a chyfoethog i'r disgyblion.
- Cymorthyddion a staff yn cydweithio yn agos i sicrhau yr addysg gorau posib i bob disgybl.
- Trefniadaeth dosbarth trylwyr ac amgylchedd ac ethos braf.
- Dealltwriaeth cadarn gan staff y CS o bedogogaeth y CS.
- Staff yn sicrhau bod disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn derbyn profiadau diddorol ac ysgogol o dan do ac yn yr awyr agored.
- Bod penaethiaid nad ydynt yn arbenigwyr, yn mynychu hyfforddiant priodol, yn dibynnu ar arbenigedd eu staff i sicrhau eu bod yn hyddysg a'r anghenion ac yn treulio amser yn arsylwi yn y dosbarthiadau. Mae hyn yn arwain at gydweithrediad effeithiol.
- Bod staff yn cael datblygu'n briodol er mwyn sicrhau addysgu a dysgu llwyddiannus a bod yr arferion da yn cael eu rhannu gyda gweddill y staff.
- Ysgolion yn datblygu disgyblion i fod yn fwy annibynnol pan nad oes staff ychwanegol ar gael. Mantais o hyn yw bod mwy o ddisgyblion yn llwyddo i gyrraedd y deilliannau uwch yn yr agwedd datblygiad personol.
- Bod buddsoddi mewn targedu hyfforddiant bwriadus ar gyfer staff yn sicrhau cefnogaeth o'r radd orau (pan fo defnydd, adborth, arfarnu a mesur effaith yn cael ei wneud o'r hyfforddiant,) a bod yr holl staff yn hyddysg a'r anghenion.
- Fawr o newid staff a hyn yn sicrhau cysondeb.
- Lle ceid Staff di- Gymraeg, bod ysgolion yn buddsoddi mewn hyfforddiant allanol ac yng nghyd- weithio ag ysgolion sydd ag anghenion tebyg.
- Ysgolion yn cyd weithio er mwyn rhannu syniadau ac arfer dda gan nad oes arian ar gael i dargedu hyfforddiant yn briodol bellach.
- Staff yng nghyd drafod/ cysgodi ei gilydd er mwyn datblygu sgiliau penodol.

**Camau nesaf posibl:**

- Diogelu arian i gyllido ratios staff : disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen er mwyn eu galluogi i dargedu'n effeithiol yn gyson.
- Darparu hyfforddiant bwriadus ar gyfer cymorthyddion dosbarth ac 1 i 1.
- Darparu datblygiad proffesiynnol bwriadus ar gyfer Athrawon llanw.
- Darparu hyfforddiant bwriadus ar gyfer staff Di-Gymraeg.
- Darparu banc o staff sydd wedi eu hyfforddi yn briodol.

**Prydau ysgol am ddim**

| Perfformiad DCS Gwynedd | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % Disgyblion a gyflawnodd y DCS (Cohort llawn) | 83.0 | 82.8 | 85.2 | 86.8 | 86.8 | 86.6 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % Disgyblion a gyflawnodd y DCS (Heb gynnwys disgyblion PYD) | 85.3 | 85.3 | 87.9 | 88.7 | 88.6 | 89.0 |
| % Disgyblion a gyflawnodd y DCS (PYD yn unig) | 70.9 | 70.2 | 71.0 | 75.4 | 76.5 | 74.0 |

**Anawsterau:**
**Gwelir:**

- Amrywiaeth o ysgol i ysgol gyda gorgyffwrdd rhwng y disgyblion ADY, plant ffiniol a PYD mewn rhai ysgolion, ac esiamplau o ddeilliannau uwch mewn eraill.
- Diffyg staff ychwanegol i dargedu anghenion y disgyblion yn rheolaidd a chyson, yn effeithio ar y deilliannau.
- Anghenion y disgyblion yn dibynnu o bryd i'w gilydd ar eu cefndir cymdeithasol a hyn wedyn yn dylanwadu ar yr ymyrraeth sydd ei angen. Pryder pan nad oes staff ac arbenigedd priodol ar gael i ddiwallu'r anghenion hyn yn ddigonol.
- Mewn ysgolion bach, lle ceir yn aml llai o ddisgyblion PYD, ni cheir yr arian ychwanegol trwy grantiau i fuddsoddi mewn strategaethau a all ddylanwadu ar safonau'r holl ddisgyblion.

**Strategaethau ar waith i'w goroesi.**
**Gwelir:**

- Ysgolion yn buddsoddi arian grantiau i sicrhau targedu effeithio er mwyn i'r disgyblion PYD gyrraedd eu targedau personol ac fel y gwelir, mae dros 70% ohonynt yn gyson yn cyrraedd y deilliannau disgwyliedig.
- Ysgolion gyda disgwyliadau uchel a heriol ac yn darparu profiadau fel bo'r plentyn yn cael y cyflegorau i gyrraedd ei lawn botensial.
- Strategaethau cadarn ar waith sy'n sicrhau bod gwaelodlin isel yn codi, er enghraifft Dyfal donc/ Aled Afal/ Rhifo Rhagorol.
- Lle mae niferoedd uchel o ddisgyblion PYD, ceir grantiau sy'n galluogi ysgolion i roi nifer o strategaethau ar waith neu i gyflogi er enghraifft Cymhorthydd ychwanegol i ddatblygu'r Sgiliau Sylfaenol. Mae'r strategaethau hyn yn dylanwadu ar yr holl ysgol ac nid y disgyblion PYD yn unig.

**Camau posibl nesaf**

- Cymorth ymarferol pan nad oes arian ar gael yn yr ysgolion – ar gyfer staff/ rhieni.
- Cyfleoedd i ymweld ag ysgolion arfer dda er mwyn rhannu syniadau a datblygu strategaethau ymarferol.

**Cymhariaeth Bechgyn / Genethod**

| Perfformiad DCS Gwynedd | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **% Bechgyn** | **78.5** | **78.2** | **80.6** | **81.6** | **82.0** | **83.0** |
| **% Genethod** | **87.5** | **87.3** | **89.8** | **92.1** | **91.7** | **91.0** |

**Anhawsterau:**

**Gwelir:**

- Mewn ysgolion bach, mae'n anodd mesur y gwahaniaeth oherwydd niferoedd bach yn y cohort.
- Esiamplau o ddiffyg cynllunio bwriadus ar gyfer targedu anghenion penodol Bechgyn/ genethod ac angen datblygu'r agweddau/ anghenion ymhellach.
- Bod y disgyblion yn aml yn perfformio yn unol â'u gallu yn y meysydd penodol ond bod yn rhaid i'r ysgolion barhau i dargedu er mwyn cyfiawnhau'r canlyniadau.
- Pan fo ysgolion yn targedu anghenion bechgyn, mae'r genethod yn elwa yn yr un modd. Oherwydd hyn, mae'r gwahaniaeth yn y deilliannau yn parhau.

**Strategaethau ar waith i'w goroesi:**

**Gwelir:**

- Llawer o fuddsoddiad wedi ei wneud tros y blynyddoedd diwethaf o ran strategaethau sy'n effeithiol gyda bechgyn a genethod, er enghraifft dulliau Pie Corbett/ iaith ar daith/ ardaloedd amrywiol i hybu ysgrifennu rhydd/ defnydd o TG.
- Strategaethau wedi bod yn effeithiol fel y gwelir yn y tabl uchod.
- Bod trefniadaeth y Cyfnod Sylfaen yn enwedig yn ateb anghenion y bechgyn, a bod cydbwysedd rhwng y gwaith ffocws a'r ddarpariaeth barhaus yn effeithiol.
- Targedu bwriadus ar waith i sicrhau cefnogaeth fel bo'r angen.
- Strategaethau a herio addas yn eu lle.
- Disgyblion yn cael y rhyddid i ddewis eu her eu hunain. Hyn yn aml yn apelio i'r bechgyn.
- Ysgolion yn sicrhau bod themau yn cael eu anelu i sicrhau diddordeb yr holl ddisgyblion a'u bod hwy yn rhan o'r cynllunio.
- Ardaloedd yn eu lle sy'n denu'r holl gohort.

**Camau posibl nesaf:**

- Parhau i dargedu o fewn CDY/ anghenion y dosbarthiadau/ disgyblion unigol er mwyn sicrhau cysondeb mewn darpariaeth.
- Cynnal cyrsiau pan fo strategaethau newydd effeithiol yn dod i'r amlwg.
- Hyrwyddo arfer da a galluogi staff i ymweld.

**Dulliau Asesu**

**Anhawsterau:**

**Gwelir:**

- Bod anghysondeb wedi bod yn y negeseuon yn y gorffennol a hyn wedi dylanwadu'n negyddol ar ddeilliannau ysgolion.
- Strwythurau asesu yn amrywio o ysgol i ysgol- Incerts/ barn broffesiynol, sydd wedi arwain o bosibl at ddiffyg cysondeb.
- O bosibl bod athrawon yn asesu yn rhy lym gan fod eu disgwyliadau yn rhy uchel/ heriol. Gwelir y byddai cymedroli Cyfnod Sylfaen yn draws Sirol, yn rhanbarthol ac o fewn 'teulu' yr ysgol, o gymorth yn hyn o beth.
- Yr angen am fwy o arweiniad ar gyfer y flwyddyn nesaf gyda newid yn y deilliannau.
- Pryder nad yw'r holl staff yn derbyn hyfforddiant o safbwynt asesu, yn enwedig gan fod Cymorthyddion yn chwarae rhan mor hanfodol yn y broses.

- Nad yw holl athrawon llanw yn deall anghenion asesu'r Cyfnod Sylfaen.  Hyn yn hanfodol yn enwedig pan mae absenoldebau tymor hir.

**Strategaethau ar waith i'w goroesi:**

**Gwelir:**

- Bod y Penaethiaid yn ffyddiog o allu eu hathrawon Bl 2 i asesu'r disgyblion yn unol a gofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn herio eu dyfarniadau er mwyn sicrhau cadernid. Athrawon yn dal eu tir oherwydd eu dealltwriaeth gadarn o'r anghenion.
- Cydweithio a chyd ddibynnu yn bodoli rhwng y penaethiaid/ uwch dim rheoli/ adrannau Cyfnod Sylfaen.
- Penaethiaid wedi derbyn hyfforddiant o ran asesu yn y Cyfnod Sylfaen a bod hyn yn eu galluogi i herio'r canlyniadau.
- Anghenion y Cyfnod Sylfaen yn rhan amlwg o Gynlluniau datblygu'r ysgolion.
- Athrawon a chymorthyddion yn cydweithio i asesu. Gwaith tîm yn hanfodol i sicrhau asesu cyflawn a chysondeb dyfarniad.
- Bod GwE yn herio ysgolion er mwyn sicrhau effeithiolrwydd eu dulliau asesu a bod yn rhaid i Ysgolion fod a thystiolaeth gadarn i gefnogi eu dyfarniadau.
- Lle bod angen, fod Penaethiaid yn sicrhau hyfforddiant priodol ar gyfer eu staff er mwyn sicrhau cysondeb.
- Bod staff yn ogystal â'r Pennaeth yn atebol dros y data ac felly rhaid iddynt sicrhau bod strategaethau pendant yn eu lle yn ateb anghenion a ganfyddir.
- Bod cydnabyddiaeth gan GwE pan fo 'stori' haeddiannol y tu ôl i ganlyniadau is rhai disgyblion.
- Ysgolion yn asesu yn rheolaidd ac yn rhoi adborth cyson i'r Pennaeth a'u cydweithwyr.
- Ysgolion yn defnyddio Incerts i dracio datblygiad disgyblion a grwpiau targed, i gynllunio a gosod y targedau nesaf ac i weld bylchau sydd angen eu targedu. Ysgolion yn defnyddio amrywiaeth o gynlluniau asesu mewnol yn ogystal ag Incerts.
- Bwyslais ar ddadansoddi data a gwneud defnydd pwrpasol ohono i dargedu'r disgyblion. Hyn yn cael ei fwydo i gynllun datblygu'r ysgolion a chynlluniau priodol yn cael eu sefydlu er mwyn targedu yn effeithiol.
- Hyfforddiant GwE wedi bod yn fuddiol i gadarnhau dealltwriaeth staff o ran anghenion asesu, ac i sicrhau eu bod yn defnyddio eu barn broffesiynol i bennu dyfarniad terfynol yn lle dibynnu'n unig ar Incerts.
- Cysondeb lle mae cymedroli anffurfiol wedi ei sefydlu yn y Cyfnod Sylfaen.

**Camau gweithredu posibl**

- Sicrhau bod y lefel o her gan Gwe yn gyson ar draws yr holl ysgolion.
- Hyrwyddo cymedroli ar draws y Cyfnod Sylfaen i sicrhau cysondeb.
- Sicrhau hyfforddiant priodol ar asesu ar gyfer holl staff y Sir gan gynnwys staff llanw a chymorthyddion.

**I gloi**

**Prif argymhellion:**

- **Datblygu cynlluniau i hybu'r Gymraeg yn y sefydliadau cyn –ysgol.**
- **Sicrhau cynllun gwella tymor hir drwy GwE gyda ffocws clir ar wella deilliannau'r cyfnod sylfaen. Y cynllun hwn iw rannu i'r 6 deilliant.**
- **Hyrwyddo cymedroli Cyfnod Sylfaen o fewn a thu allan i'r Sir.**
- **Ymgeisio i ddiogelu cymharebau y staff yn y Cyfnod Sylfaen.**
- **Adolygu ac addasu'r ddarpariaeth ADY ar lefel ysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, fel bod cefnogaeth a thargedu amserol a bwriadus ar gael o'r Meithrin hyd at Blwyddyn 2.**
- **Rhaglen hyfforddi'r gwasanaeth ADYaCh i roi sylw penodol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen.**
- **Adolygu'r ddarpariaeth i ddisgyblion lle bo Saesneg yn Iaith Ychwanegol.**
- **Datblygu ymhellach hyfforddiant priodol ar gyfer pob aelod o staff sydd yn gweithio'n y cyfnod sylfaen.**

Mynegodd y Penaethiaid eu bod yn deall bod cyfyngiadau ariannol ar yr Awdurdod Addysg yn yr un modd ag arnynt hwythau, a bod hyn yn dylanwadu ar yr hyn sydd yn bosibl i'w gyflawni.